Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Tina Cooney**

**Abertawe**



## Dyddiad Cyhoeddi

**29 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwarchodwr plant wedi'i chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gofal plant yn y cartref ar gyfer hyd at 10 o blant dan 12 oed. Mae'n gweithredu ei gwasanaeth o'i chartref yn Abertawe. Mae'r gwaith o warchod y plant yn digwydd ar lawr gwaelod y cartref. Mae gan y gwarchodwr plant un ci. Mae'r gwasanaeth hwn yn Saesneg yn bennaf, gyda rhywfaint o ddefnydd achlysurol o'r Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn derbyn gofal addfwyn ac yn ymddangos yn hapus yn y gwasanaeth hwn. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant o dan ei gofal yn dda ac yn eu hannog i ddewis yr hyn y maent am ei wneud a'r hyn y maent am chwarae ag ef. Fodd bynnag, nodwyd bod angen gwneud rhywfaint o welliannau yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei arwain a'i reoli.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaeth y gwarchodwr plant:

- ddiweddaru'r Datganiad o Ddiben;
- derbyn adnoddau, teganau a chyfarpar newydd drwy wneud cais am grant;
- anfon hysbysiadau ymlaen at AGC ynglŷn ag aelod o'r cartref nad oedd yn byw ar y safle bellach a chynorthwyydd a oedd wedi gadael y gwasanaeth.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion yn ystod yr arolygiad, ac maent wedi'u nodi yng nghefn yr adroddiad.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant wedi ymlacio ac yn fodlon yng ngofal y gwarchodwr plant ac maent yn gallu gwneud rhai dewisiadau sy'n briodol ar gyfer eu hoedran. Mae'r plant yn mwynhau'r cyfleoedd chwarae a gynigir, ac mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn cael eu hannog i gyfleu eu dewisiadau.

Gwelsom y plant yn mynegi eu hunain i leisio eu barn. Pan ofynnwyd iddynt pa weithgareddau yr hoffent chwarae â nhw, roeddent yn hyderus yn dewis neu'n cadw at yr hyn a ddewiswyd ganddynt. Er enghraifft, roedd plentyn yn gallu dewis paentio neu ludo dynion eira. Ar achlysur arall, roedd y plant yn gallu dewis rhwng grefi neu saws tomato gyda'u cinio. Gwnaeth y plant ddewisiadau annibynnol o amrywiaeth o adnoddau yn ystod amseroedd chwarae rhydd yn yr ystafell chwarae. Gwelsom fod y plant wedi ymlacio yn llwyr ar y safle a'u bod yn hyderus wrth symud o amgylch y brif ystafell chwarae yn rhydd.

Mae gan y plant lais da yn y gwasanaeth hwn.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymlacio ac mae ganddynt gydberthynas dda â'r gwarchodwr plant.

Roedd y plant yn ymddangos yn hapus ac wedi ymlacio.  Yn ystod ein hymweliad, roedd y plant yn mwynhau gwisgo i fyny mewn ffrogiau tylwyth teg. Aeth y plant at y gwarchodwr plant yn hapus a gwenu arni. Roedd y plant yn fodlon wrth eistedd a chwarae gyda'r gwahanol deganau yn yr ystafell. Yn ystod y bore, gwelsom un plentyn yn ymddangos yn falch iawn ar ôl derbyn sticer.

Mae'r plant yn ymddangos yn hapus, wedi setlo ac wedi ymlacio. Mae gan bob plentyn gydberthynas dda â'r gwarchodwr plant.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac â'r gwarchodwr plant.

Roedd y plant hŷn yn siaradus ac yn cynnal sgyrsiau â'r gwarchodwr plant, â ni ac yn ddychmygus ar y ffôn. Roedd y plant yn rhannu adnoddau yn parchu ei gilydd. Yn ystod gweithgaredd chwarae rôl, clywsom y plant yn siarad ag aelodau o'u teuluoedd dros y ffôn.

Yn ystod ein hymweliad, nid oedd un plentyn yn gallu cyfathrebu ar lafar oherwydd ei oedran; ond fe'i gwelwyd yn gwenu ac yn parablu'n hapus â'r plant hŷn.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda yn y gwasanaeth hwn.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae gan y plant ddiddordeb yn eu gweithgareddau chwarae ac maent yn mwynhau chwarae rhydd.

Gwelsom y plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rhydd yn ystod ein hymweliad, a oedd yn cynnwys chwarae gyda doliau, teganau meddal, eitemau chwarae rôl a llyfrau. Gwnaeth y plant ddyfalbarhau am beth amser â'u gweithgareddau, gan gynnwys creu bwydlen ar gyfer y siop chwarae rôl. Gwelsom dystiolaeth hefyd o weithgareddau crefft y plant wedi'u harddangos ar y wal. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn mynd â'r plant i'r parc lleol, y llyfrgell a chanolfannau chwarae yn rheolaidd a gwelsom luniau o'r plant yn mwynhau chwarae a dysgu yn y lleoliadau hynny.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu rhywfaint o sgiliau annibyniaeth.

Roedd y plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth a bwytaodd bob un ohonynt eu bwyd yn annibynnol yn ystod amser cinio. Gwelsom y plant yn dewis eu teganau eu hunain o'r llawr. Estynodd y plant ddillad gwisgo i fyny yn llwyddiannus a cheisio gwisgo eu hunain cyn gofyn am gymorth gan y gwarchodwr plant. Roedd y plant yn defnyddio'r toiled yn annibynnol. Roedd y plant hŷn yn gallu cyfrif i ddeg â rhywfaint o gymorth a chanu'n annibynnol. Roedd y plant hŷn yn gallu cynnal sgyrsiau'n annibynnol â'r gwarchodwr plant .

Mae’r plant yn datblygu’n briodol ac yn dod yn eithaf annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn frwdfrydig yn ei rôl ac mae'n ymrwymedig i ddiwallu anghenion y plant a hyrwyddo eu datblygiad. Mae'n cadw'r plant yn iach ac yn ddiogel ac mae'n rheoli ymddygiad yn gadarnhaol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd gan y gwarchodwr plant wybodaeth a dealltwriaeth dda o weithdrefnau diogelu ac roedd wedi mynychu cwrs hyfforddiant amddiffyn plant. Fodd bynnag, nid oedd y polisi a'r weithdrefn ddiogelu yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Gwelwyd arferion hylendid da yn ystod y broses o newid cewynnau. Roedd y gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddewisiadau bwyd pob plentyn ac roedd yn hyrwyddo bwyta'n iach. Roedd asesiadau risg sylfaenol ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn cofnodi tymereddau'r oergell ond nid yw bob amser yn cofnodi'r dyddiad. Gwelsom dystiolaeth bod y gwarchodwr plant yn cofnodi anafiadau blaenorol fel y nodir yn ei pholisi.

Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i fod yn garedig tuag at ei gilydd ac mae'n fodel rôl da. Mae'n wyliadwrus ac yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol.

Roedd y gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn ei gofal yn dda ac yn ymrwymedig i ddiwallu eu hanghenion. Roedd hi'n ddigynnwrf ac yn dangos ymddygiad da, er enghraifft, roedd yn dweud os gwelwch yn dda a diolch i'r plant. Trefnodd weithgareddau priodol ar gyfer y plant, ac at ei gilydd, roeddent yn cynnwys chwarae rhydd, er enghraifft gwnaeth helpu plentyn ifanc i gyfrif gan ddefnyddio cerrig wedi'u paentio. Yn ystod ein hymweliad, chwaraeodd y gwarchodwr plant â'r plant a dangosodd gydberthynas barchus â'r plant yn ei gofal. Roedd yn parchu ac yn gwrando ar farn y plant ac yn eu canmol yn aml.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei rhyngweithio'n dda iawn.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn creu awyrgylch magwrus ar gyfer chwarae, dysgu a datblygu.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu awyrgylch hamddenol a chyfeillgar er mwyn annog y plant i chwarae a dysgu. Roedd y gwarchodwr plant yn gallu cynnig amrywiaeth o

weithgareddau i ddiwallu anghenion unigol y plant. Roedd y gwarchodwr plant yn cynllunio gweithgareddau chwarae rhydd llawn hwyl gyda llawer o deithiau dydd a theithiau i'r parc, grwpiau chwarae ac ardaloedd chwarae er enghraifft. Gwelsom ffotograffau o'r teithiau yr oedd y plant wedi cymryd rhan ynddynt. Roedd y gwarchodwr plant wedi creu adnoddau i hyrwyddo rhifedd ac fe'i gwelsom yn helpu plentyn i gyfrif i ddeg yn effeithiol.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo cyfleoedd chwarae a dysgu'n effeithiol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae cartref y gwarchodwr plant yn gynnes a chroesawgar. Mae digon o le ac adnoddau i ddiwallu anghenion y plant ac mae'r ystafell chwarae yn addas iawn ar gyfer y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Gall y plant ddefnyddio amrywiaeth gytbwys o adnoddau, teganau a chyfarpar ysgogol sy'n briodol ar gyfer eu hoedrannau.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Gofelir am y plant mewn amgylchedd cartrefol a chyfforddus sy'n lân, yn ddiogel ac yn addas ar gyfer y plant.

Roedd prif ddrws y cartref yn cael ei gadw ar glo pan oedd y plant yn bresennol ac roedd yr allwedd ar gael yn hawdd i'r gwarchodwr plant. Roedd cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw. Roedd ardal yr ardd gefn yn ddiogel ac yn sicrhau y gallai'r plant chwarae'n ddiogel. Fodd bynnag, dywedodd y gwarchodwr plant wrthym nad oedd y plant yn defnyddio'r ardal awyr agored yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd iechyd a diogelwch. Roedd y swyddog diogelwch tân wedi cynnal gwiriad diogelwch tân o'r cartref yn ddiweddar iawn. Roedd gwiriadau cynnal a chadw wedi'u cynnal yn rheolaidd ar y system wresogi nwy.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel i'r plant ei ddefnyddio.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae digon o le ac adnoddau i ddiwallu anghenion y plant.

Mae'r plant yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn yr ystafell chwarae, sy'n addas iawn ar gyfer y plant ac sydd wedi'i dylunio i gyd-fynd â'r cyfnod sylfaen. Roedd llawer o deganau ac adnoddau ar gael ac roedd yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Roedd y waliau'n llachar ac yn lliwgar ac yn ategu dysgu'r plant. Roedd y plant yn bwyta eu bwyd ar fwrdd y gegin, a oedd wedi'i osod yn y cyntedd mawr. Roedd y plant yn gallu defnyddio'r toiled yn annibynnol.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas iawn ar gyfer y plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae amrywiaeth eang o deganau a chyfarpar ar gael i'r plant.

Roedd y gwarchodwr plant yn sicrhau y gallai'r plant gael gafael ar amrywiaeth o deganau ac adnoddau diddorol ac ysgogol a oedd yn hyrwyddo chwilfrydedd y plant ac yn eu galluogi i ddilyn eu diddordebau. Roeddent yn cynnwys llawer o ddeunyddiau celf a chrefft, teganau byd bach, ceir, posau, teganau chwarae rôl, llyfrau a gemau bwrdd. Ni wnaeth y plant ddefnyddio'r ardd yn ystod yr arolygiad a dywedwyd wrthym nad oeddent yn defnyddio'r ardal hon yn ystod misoedd y gaeaf fel rheol. Roedd yn hawdd i'r plant estyn a chael gafael ar deganau ac adnoddau. Roedd y gwarchodwr plant wedi gwneud cais llwyddiannus am grant ac wedi prynu teganau a chyfarpar newydd i'r plant; gwelsom y plant yn agor yr adnoddau newydd ac yn rhoi cynnig arnynt drostynt eu hunain.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu adnoddau o ansawdd da.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn gymwys ac yn rhedeg ei gwasanaeth yn fedrus.  Mae'n cydweithio'n agos â'r rhieni a'r gofalwyr ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cydweithio. Fodd bynnag, mae lle i wella rhai agweddau ar y gwaith papur.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Ar y cyfan, mae'r gwarchodwr plant yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth trefnus a gaiff ei redeg yn dda. Fodd bynnag, gwelsom rai agweddau y gellid eu gwella mewn perthynas â'r gwaith papur.

Yn ystod cyfnod yr arolygiad, gwnaethom dderbyn datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru a oedd yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Sicrhawyd ei fod ar gael i'r rhieni yn ogystal â'r polisïau a'r gweithdrefnau. Yn gyffredinol, cafodd contractau eu trafod a'u rhannu â'r rhieni, gan nodi disgwyliadau'r ddau barti a gofynnwyd am ganiatâd ar gyfer gweithgareddau megis tynnu ffotograffau, defnyddio eli haul a derbyn triniaeth feddygol mewn argyfwng. Roedd polisïau ar waith ac yn cael eu gweithredu er bod angen gwneud rhywfaint o fân newidiadau i'r polisi diogelu a chwynion. Roedd y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys yn ogystal â'r ddogfennaeth yswiriant cerbyd a'r dystysgrif MOT.

Mae'r arweinyddiaeth yn briodol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud gwelliannau i'w gwasanaeth, yn cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac yn ceisio barn y rhieni.

Roedd y gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol, a oedd yn cynnwys cwnsela ar brofedigaeth ac roedd wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn ei gwaith. Roedd y gwarchodwr plant wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth blynyddol. Roedd y gwarchodwr plant hefyd wedi paratoi adroddiad ar ansawdd y gofal ond roedd angen iddi ymhelaethu ar yr adroddiad i gynnwys barn y rhieni. Roedd y gwarchodwr plant wedi llwyddo i gael grant i brynu adnoddau newydd i'r plant.

Mae'r gwaith hunanwerthuso yn ddigonol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i hamodau cofrestru ac yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â nhw.

Roedd gan y gwarchodwr plant wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ond nid oedd wedi ei adnewyddu'n amserol pan ddaeth i ben. Roedd dyddiadur y gwarchodwr plant

yn dangos ei bod yn cofnodi presenoldeb y plant a'i bod yn cadw at ei rhifau cofrestredig cyffredinol. Roedd y gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant mewn diogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'r gwarchodwr plant yn awyddus i ddatblygu ei hymarfer ymhellach ac yn gweithredu'n rhagweithiol i gyflawni hynny.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei gwasanaeth yn briodol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan y gwarchodwr plant berthynas effeithiol â'r rhieni ac asiantaethau allanol.

Roedd y rhieni wedi cwblhau dogfennaeth ac wedi derbyn gwybodaeth gyffredinol am y gwasanaeth. Cafodd gwybodaeth allweddol ei chasglu am hoff bethau a dewisiadau'r plant fel bod gan y gwarchodwr plant ddigon o wybodaeth am blant unigol. Roedd gan y gwarchodwr plant gysylltiadau da â gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaeth cymorth a gwarchodwyr plant eraill yn yr ardal.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin partneriaethau priodol â gweithwyr proffesiynol a'r rhieni sy'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth a ddarperir ganddi.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y dylai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol;

- Sicrhau bod yr adroddiad ar ansawdd y gofal yn fwy myfyriol;
- adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar amser;
- rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy i AGC ar amser;
- cofnodi dyddiad cofnodion tymheredd yr oergell;
- diweddaru'r polisi cwynion a diogelu a
- sicrhau y caiff pob contract ei lofnodi mewn modd amserol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu gyffredin. Gwnaeth ein harolygwr gynnal dau ymweliad dirybudd ar 20 Tachwedd a 23 Tachwedd 2018. Gwnaethom gyfarfod â'r gwarchodwr plant ar 12 Rhagfyr 2018 hefyd. Derbyniom gŵyn ddienw cyn yr arolygiad ond roedd yn ddi-sail.

- gwnaethom edrych ar sampl o amrywiaeth o ddogfennau a pholisïau yn ystod yr ymweliad, megis cofrestri presenoldeb y plant, asesiadau risg, ffurflenni damweiniau/digwyddiadau, cofnodion datblygiad, contractau a ffurflenni gwybodaeth y plant, ffurflenni cofnodion cynnal a chadw a'r adroddiad ar ansawdd y gofal;

- gwnaethom arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y plant a oedd yn bresennol a'r gwarchodwr plant;

- gwnaethom gynnal arolygiad gweledol o'r safle a mesur yr ystafelloedd a ddefnyddiwyd ar gyfer gwarchod y plant

- gwnaethom ddosbarthu holiaduron rhieni.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwr Plant** |
| **Person Cofrestredig** | **Tina Cooney** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **10** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 mis i 12 oed** |
| **Oriau agor** | **8.00am-6.00pm (cynnig hyblygrwydd hefyd)** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg â rhywfaint o Gymraeg achlysurol** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **16 Rhagfyr 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **20 a 23 Tachwedd 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg pobl/plant sy'n defnyddio ei wasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol Llywodraeth Cymru 'Mwy na Geiriau: canllawiau strategol dilynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes gofal cymdeithasol'.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |